# Arwain

2018

Prifysgol Abertawe
Swansea University



## Dau gartref newydd i fyfyrwyr Cymraeg

### Y Brifysgol yn agor dwy neuadd i siaradwyr iaith gyntaf a dysgwyr

Fe fydd dwy o neuaddau preswyl Prifysgol Abertawe yn fwrlwm o fywyd Cymraeg o fis Medi ymlaen.

Mae Neuadd Preseli ar Gampws Singleton a Neuadd Emlyn ar Gampws y Bae wedi cael eu pennu yn llety i fyfyrwyr sydd naill ai'n siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.

Mae miloedd o siaradwyr Cymraeg eisoes yn astudio yn y Brifysgol a'r nifer ar gynnydd yn sgil mwy o ddarpariaeth i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bellach mi fydd gan fyfyrwyr gyfle i fod yn rhan o gymuned glos a chefnogol yng nghalon bywyd y campws.

Mae'r ddwy neuadd yn cynnig llety hunanarlwyo gydag ystafelloedd *en-suite* – a digonedd o le ar gyfer cymdeithasu.

Bydd gan breswylwyr ar y ddau gampws fynediad i'r holl gyfleusterau hanfodol y mae myfyrwyr eu hangen, gan gynnwys banc, golchdy, siopau, swyddfa bost, neuadd fwyd, canolfan iechyd, Undeb Myfyrwyr, a changen Abertawe o'r Coleg Cymraeg.

Mae'r datblygiad newydd wedi cael ei groesawu'n frwd gan Swyddog y Gymraeg undeb myfyrwyr y Brifysgol.

"Mae hwn yn gam sylweddol ymlaen, ac yn rhywbeth y buon ni'n ymgyrchu amdano ers amser hir," meddai Tomos Watson.

"Er bod myfyrwyr eisoes yn cael nodi ar eu ffurflen gais eu bod yn dymuno cael eu lletya gyda siaradwyr Cymraeg eraill, dyma'r tro cyntaf y mae neuaddau wedi cael eu dynodi'n benodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg."

Ei obaith yw gweld pawb yn cael cyfle i fyw mewn awyrgylch Cymraeg a gwneud ffrindiau'n hawdd.

"Mae pennu'r ddwy neuadd yn rhai Cymraeg yn sicrhau bod pob myfyriwr yn cael y cyfle i fyw a chymdeithasu yn y Gymraeg," meddai.



### Gwnewch gais

Mae modd gwneud cais am le yn un o'r ddwy neuadd Gymraeg.

Y cyfan sydd angen ei wneud yw nodi ar y ffurflen gais eich bod yn awyddus i fyw gyda myfyrwyr eraill sy'n siarad Cymraeg, ac fe fydd y Brifysgol yna'n cynnig llety ar y campws lle byddwch chi'n astudio.

Mae'r broses o geisio am lety ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf eisoes wedi dechrau, felly gorau po gyntaf y gwnewch eich cais!

Am fwy o wybodaeth ewch i **www.abertawe.ac.uk/llety**

# Ehangu ar Ap arloesol ar gyfer y maes iechyd

Mae Ap Gofalu trwy'r Gymraeg Prifysgol Abertawe, i gefnogi gweithwyr iechyd a gofal i ddefnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith, wedi bod mor llwyddiannus nes bod fersiwn newydd, llawnach ar fin cael ei lansio, diolch i nawdd pellach gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Lansiwyd y teclyn dysgu arloesol yn 2011 ac mewn pum mlynedd, mae'r Ap wedi cael ei lawr lwytho dros 10,000 o weithiau, ac ar gael i bawb yn rhad ac am ddim oddi ar iTunes a Google Play.

Roedd yr Ap gwreiddiol yn cynnwys geiriau, termau ac ymadroddion defnyddiol ym maes iechyd a gofal, i gynorthwyo a galluogi unigolion sy'n gweithio yn y maes i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chleifion, a thrwy hynny sicrhau bod modd i'r cleifion hynny drafod eu hanwylderau trwy gyfrwng eu mamiaith.

"Mae'r Ap wedi ei ehangu'n sylweddol," meddai Lynsey Thomas, Rheolwr Marchnata a Hyrwyddo Academi Hywel Teifi, sydd wedi arwain ar y gwaith o ddatblygu'r Ap Gofalu.

"Mae'r diweddariad hwn yn gyfle i sicrhau profiadau dysgu gwell i'r defnyddwyr. Adeiladwyd yr Ap gwreiddiol bron i bum mlynedd yn ôl, felly mae hwn yn gyfle i ni adnewyddu'r Ap â gwedd gyfoes a modern.

"Mae adrannau ychwanegol o derminoleg ac ymadroddion sy'n benodol ar gyfer meddygon, ymwelwyr iechyd, gweithwyr gofal a ffisiotherapyddion wedi'u creu.

"Mae'r ynganiadau'n cael eu llefaru unwaith eto gan Nia Parry, y tiwtor iaith a'r gyflwynwraig deledu, sy'n gyn-fyfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe.

Ymhlith y datblygiadau newydd eraill mae cyfarwyddyd i weithwyr ar gynnal sgyrsiau anffurfiol ar bynciau fel y tywydd, er mwyn tawelu meddyliau eu cleifion.

Hefyd, mae gallu gan yr Ap i anfon hysbysiadau ymwthiol i ffonau defnyddwyr, er enghraifft *Ymadrodd y Dydd*, a'r gobaith yw bydd hyn yn procio ac yn annog defnyddwyr i ddal ati i ddefnyddio'r Ap a'u Cymraeg."

"Mae'r budd y mae myfyrwyr a staff wedi ei gael o'r Ap dros y blynyddoedd yn destun balchder i Academi Hywel Teifi, ac rwy'n ddiolchgar i'r Coleg Cymraeg am gyd-fuddsoddi ymhellach ynddo," meddai Dr Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr yr Academi.

## Adran Nyrsio ymhlith 100 gorau'r byd

Mae Adran Nyrsio Prifysgol Abertawe ymhlith y 100 adran gorau o'i bath yn y byd, yn ôl arbenigwyr mewn cymharu sefydliadau addysg uwch.

"Ro'n i wrth fy modd o glywed ein bod ni wedi cyrraedd safle 51 yng nghant uchaf Cynghrair Prifysgolion y Byd QS," meddai Dr Jayne Cutter, Pennaeth yr Adran Nyrsio yng Ngholeg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd y Brifysgol.

"Mae hwn yn llwyddiant aruthrol, ac mae'n ganlyniad gwaith caled ac ymroddiad pawb yn Adran Nyrsio'r Coleg, a phawb sy'n gysylltiedig â hi, yn ogystal â'r myfyrwyr sy'n astudio gyda ni."

Dyma'r unig adran nyrsio yng Nghymru, ac un o ddim ond 15 yn y Deyrnas Unedig, i gyrraedd rhestr 100 uchaf QS.

## Astudio drwy'r Gymraeg

Mae gan Nia Williams, darlithydd Nyrsio y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym Mhrifysgol Abertawe, brofiad o dros 30 mlynedd o weithio i'r Gwasanaeth Iechyd.

Mae ar secondiad o Wasanaeth Ambiwlans Cymru yn cefnogi myfyrwyr rhugl i astudio'r pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg ac i gyflwyno eu gwaith cwrs yn y Gymraeg.

"Dw i yma i'w hannog nhw i wneud hynny, yn enwedig rhai o'r myfyrwyr hŷn, sy'n aml yn siarad Cymraeg ond heb gymwysterau yn yr iaith.



"Mae gennym siaradwyr Cymraeg sydd yn manteisio i'r eithaf ar Ysgoloriaethau Cymhelliant y Coleg Cymraeg er mwyn astudio yn eu mamiaith, tra bod bron i 40 o'n myfyrwyr di-Gymraeg wedi manteisio'n ddiweddar ar gwrs preswyl yn Nant Gwrtheyrn er mwyn dechrau dysgu'r iaith gyda'r nod o'i defnyddio wrth eu gwaith."

# Taith fythgofiadwy i'r Himalaya

Mae Tomos Watson wedi cael blwyddyn hynod brysur rhwng astudio ar gyfer ei radd Daearyddiaeth a'i waith yn Swyddog rhan-amser y Gymraeg, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe.

Mae wedi bod yn flaenllaw yn yr ymgyrch i wneud y swydd yn un lawn-amser ac yn sgil ei ymdrechion ef ac eraill yn yr Undeb Myfyrwyr mae disgwyl y bydd myfyrwyr Prifysgol Abertawe yn cael pleidleisio ar hyn cyn diwedd y flwyddyn academaidd hon.

Ac yntau ar fin graddio mewn Daearyddiaeth yr haf yma, fe fydd Tomos yn trysori un profiad am byth sef ei daith gwaith maes fythgofiadwy i fynyddoedd yr Himalaya y llynedd.

Cafodd y myfyriwr o Gapel Seion ger Aberystwyth ei ddewis yn un ymhlith 20 myfyriwr i fynd ar waith maes i dalaith Sikkim yng ngogledd-ddwyrain India.

Mae'r dalaith fach ym mynyddoedd yr Himalaya yn ffinio â Bhutan, Tibet a Nepal, gydag amrywiaeth mawr o fywyd gwyllt.

"Fel un o'r myfyrwyr Daearyddiaeth Dynol, un o'r prosiectau yr o'n i'n gweithio arno oedd astudio hunaniaeth pobl Sikkim, a'r berthynas â thirwedd a byd natur," meddai Tomos.

Fe fu hefyd yn gweithio ar brosiect eco-twristiaeth ar cyd â myfyrwyr o bynciau eraill.

"Roedd y cyfan yn brofiad anhygoel," meddai.






***Fe fydd yr Ap Gofalu ar ei newydd wedd yn cael ei lansio yn y Gwyddonle ar faes Eisteddfod yr Urdd am 2.00 brynhawn dydd Mercher.***

## Cyfreithiwr disglair yn gadael rhodd i'r Coleg Cymraeg

Mae cyfreithiwr a seneddwr disglair a fu'n gefnogwr cadarn i'r Gymraeg ar hyd ei oes wedi gadael rhodd hael yn ei ewyllys i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Fe fydd rhodd y diweddar Arglwydd Gwilym Prys-Davies yn cefnogi myfyrwyr o ardaloedd Meirionnydd a Rhondda Cynon Taf i astudio'r Gyfraith drwy gyfrwng y Gymraeg.

"Fe fydd y rhodd hael hon gan y diweddar Gwilym Prys-Davies yn galluogi myfyrwyr o ardaloedd yr oedd ganddo gysylltiad â hwy i dderbyn cefnogaeth ychwanegol wrth astudio'r Gyfraith drwy gyfrwng y Gymraeg," meddai Ioan Matthews, Prif Weithredwr y Coleg.

Cafodd Gwilym Prys-Davies yrfa ddisglair ym maes y Gyfraith, a daeth yn aelod o Dŷ'r Arglwyddi yn 1983, yr aelod cyntaf i dyngu ei lw yn y Gymraeg.

Fe fu'n Llefarydd yr Wrthblaid ar faterion Cymreig yn Nhŷ'r Arglwyddi ac yn dadlau'n gyson dros yr angen i warchod ardaloedd Cymraeg.

Fe fydd yr ysgoloriaethau'n cael eu dyfarnu am y tro cyntaf ar gyfer blwyddyn academaidd 2019-20 ac mae cyrsiau Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton, Prifysgol Abertawe, yn gymwys ar eu cyfer.

# Dysgu'r Gyfraith yn Ysgol Hillary




Yn dilyn sefydlu perthynas rhwng Prifysgol Abertawe a chyn-Ysgrifennydd Gwladol America, Hillary Clinton, a'i hymweliad â'r Brifysgol y llynedd, Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton yw enw newydd Ysgol y Gyfraith.

Mae'r Ysgol ymysg y 200 uchaf yn Nhablau Prifysgolion y Byd QS, ac mae *The Times Good University Guide* 2018 yn nodi ei chyrsiau ymhlith y traean gorau yn y Deyrnas Unedig.

Mae darpariaeth gynyddol ar gael drwy'r Gymraeg hefyd, fel yr esbonia Trilby James, Cydlynydd Astudiaethau drwy'r Gymraeg yr Ysgol ...

### Beth yw'r dewisiadau?

Mae modd gwneud LLB Anrhydedd Sengl yn y Gyfraith, neu LLB yn y Gyfraith a Throseddeg. Mae graddau Cydanrhydedd LLB ar gael hefyd yn y Gyfraith a phynciau eraill gan gynnwys Hanes, Gwleidyddiaeth, y Gymraeg ac amryw ieithoedd eraill.

Mae modd dilyn rhan o'r cwrs gradd uwch LLM ar ddrafftio deddfau yn y Gymraeg, ac mae seminarau Cymraeg ar gael hefyd i ddilynwyr y cwrs Diploma yn y Gyfraith i Raddedigion.

### Faint o'r cwrs LLB sydd ar gael drwy'r Gymraeg?

Ar hyn o bryd, 40 credyd y flwyddyn, sy'n golygu bod y cwrs yn gymwys ar gyfer ymgeisio am Ysgoloriaethau Cymhelliant y Coleg Cymraeg.

### Pa fodiwlau sydd ar gael yn y Gymraeg?

Y modiwlau craidd, Cyfraith Trosedd a Chyfraith Cyhoeddus ym mlwyddyn 1, a Chyfraith Contract a Chyfraith Tir ym mlwyddyn 2, a'r modiwlau dewisol Hanes Cyfraith Cymru a Chymraeg y Gyfraith ym mlwyddyn 3.

Hefyd, mae modiwlau newydd trawsbynciol ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio Hanes neu'r Gymraeg ar Statws y Gymraeg, Hawliau Iaith mewn Cyd-destun Rhyngwladol ac Aml-ddiwylliannedd a'r Gymraeg.

### Beth yw manteision astudio'r Gyfraith drwy'r Gymraeg?

Mae galw cynyddol am gyfreithwyr sy'n gallu gweithio drwy'r Gymraeg, yn enwedig yng ngorllewin Cymru ac, yn sgil twf mewn addysg Gymraeg, mae'n agor llawer o ddrysau o ran swyddi.



**A hithau'n gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Bro Gŵyr, mae Trilby James yn ôl yn ei chynefin ar ôl graddio yn Reading a chyfnod o fod yn gyfreithwraig. Yn ogystal â chydlynu'r ddarpariaeth Gymraeg, mae hefyd yn uwch ddarlithydd ar y cwrs Ymarferiad y Gyfraith i Raddedigion.**

## Ar flaen y gad ym maes hawliau plant

Fe fydd ysgoloriaeth ymchwil newydd yn cryfhau'r cysylltiad rhwng y Brifysgol a chyn-Ysgrifennydd Gwladol America.

Nod Ysgoloriaeth PhD Hillary Clinton yw datblygu a chynyddu gwaith arloesol y Brifysgol ym maes hawliau plant.

Yn ogystal â'r ysgoloriaethau PhD, fe fydd rhaglen ymchwil yn datblygu adroddiadau ac yn trefnu seminarau.

# Her newydd i Gwyn Aled



Gwyn Aled Rennolf sydd wedi'i ethol yn Llywydd Undeb y Myfyrwyr Abertawe ar gyfer 2018-19.

Ar ôl graddio â gradd ddosbarth cyntaf mewn Mathemateg yn 2017 gydag Ysgoloriaeth Cymhelliant gan y Coleg Cymraeg, mae Gwyn Aled wedi bod yn gweithio fel Swyddog Chwaraeon llawn-amser gyda'r Undeb.

Dangosodd ei ymlyniad i sicrhau'r gorau ar gyfer ei gyd-fyfyrwyr yn y rôl honno gyda'i waith yn sicrhau cynnydd mewn bwydydd iach ar y campws a gostyngiad ym mhrisiau aelodaeth y campfeydd.

Cyn hynny, bu'n gyd-sylfaenydd clwb rygbi Cymraeg yr Undeb, sef Clwb Rygbi Tawe, ac yna'n Llywydd arno.

"Dw i'n edrych ymlaen yn fawr at ddechrau ar fy swydd newydd," meddai'r cyn-ddisgybl o Ysgol Dyffryn Teifi. "Dw i'n bwriadu parhau â'r ymgyrch i gael swyddog llawn-amser ar gyfer yr iaith Gymraeg.

"Blaenoriaeth arall gen i fydd ceisio sicrhau cynnydd yng nghyllidebau'r cymdeithasau amrywiol, a datblygu'r bywyd cymdeithasol sydd ar gael ar Gampws y Bae."

# O Arberth i Andalucía

Mae Becca Martin yn newid byd – mae'n dod yn ôl o flwyddyn o brofiad yn Sbaen i barhau â'i gradd a dod yn Swyddog Cymraeg Undeb y Myfyrwyr.

Hi hefyd fydd cynrychiolydd myfyrwyr ar Fwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg.

Un o amcanion y ferch o Arberth yn Sir Benfro, a chyn-ddisgybl Ysgol y Preseli, fydd parhau i ymgyrchu i droi'r swydd yn un llawn-amser.

"Rwy'n fwy penderfynol nawr nag erioed i sicrhau bod yr iaith a'r diwylliant Cymraeg yn cael eu cefnogi drwy'r Brifysgol a'r Undeb," meddai.

Fe fydd Becca yn cyfuno'r gwaith â chwblhau blwyddyn olaf ei chwrs gradd BA mewn Ieithoedd Modern.

Yn ogystal â Sbaeneg, mae hi'n astudio Ffrangeg ac yn gwneud dwy ran o dair o'i chwrs drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl ennill Prif Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg i wneud hynny.

"Yr amser dramor yn Sbaen yw blwyddyn orau fy mywyd!" meddai. "Nid yn unig rwy' wedi gwella fy sgiliau iaith Sbaeneg, ond hefyd rwy' wedi dysgu llawer amdanaf fy hun!

"Roedd bod yn berson ifanc mewn cymdeithas Sbaeneg ei hiaith yn brofiad gwych, gan fod ffordd agored ac allblyg o fyw y bobl ifanc yn gwneud y dasg o greu ffrindiau yn un hynod o hawdd," meddai.

"Roedd hi'n hyfryd gweld teuluoedd enfawr ar y strydoedd fin nos mas yn bwyta, yfed a chwerthin gyda'i gilydd."






# Llysgenhadon y Coleg Cymraeg

**Tair merch ar eu hail flwyddyn yn y Brifysgol yw llysgenhadon y Coleg Cymraeg yn Abertawe y flwyddyn nesaf …**

Biocemeg yw pwnc **Ffion Evans**, sy'n gobeithio gweithio ym maes meddyginiaeth a thriniaethau newydd yn y dyfodol.

Yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe yn Abertawe, roedd hi wedi astudio pob pwnc TGAU a Lefel A drwy'r Gymraeg ac felly yn teimlo'r mai'r peth naturiol iddi oedd parhau i astudio drwy'r Gymraeg yn y Brifysgol.

"Mae astudio drwy'r Gymraeg yn gyfle anhygoel," meddai. "Dw i am annog pobl ifanc i wneud yr un penderfyniad ag y gwnes i."

Yr un yw neges cyn-ddisgybl arall o Fryn Tawe, **Chelsea-Anne Jones-Morris**, sy'n astudio Cymraeg a Hanes.

"Mae astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn sicrhau cyfleoedd swyddi, creu ffrindiau ac yn ychwanegu mwy o sgiliau at eich CV," meddai.

Y drydedd yw **Bronwen Anderson** o Gaerdydd sy'n astudio'r Gyfraith.

"Mae'r seminarau cyfrwng Cymraeg wedi bod o fudd imi oherwydd mae'r grwpiau yn llawer llai na'r rhai Saesneg – sy'n rhoi mwy o amser a chyfle i drafod y cwestiynau a chael cymorth," meddai.

"Ac, wrth gwrs, mae cymorth ariannol ysgoloriaeth gan y Coleg Cymraeg yn amhrisiadwy."